

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 21 Mawrth 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

### Cynnwys

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

#### Cronfeydd sydd ar gael yn Ysbytai Lleol Ymddiriedolaethau GIG

**C9 Brian Hancock:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cronfeydd sydd ar gael yn ysbytai lleol ymddiriedolaethau GIG, a sut y mae wardiau unigol yn gallu cael gafael ar y cronfeydd hynny? (OAQ16502)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru yn derbyn eu hincwm refeniw oddi wrth awdurdodau iechyd i dalu'r gost o ddarparu gwasanaethau gofal iechyd. Mater i ymddiriedolaethau unigol yw sut y rheolir y cronfeydd hyn, ond mae'n arfer da i gyllidebau refeniw gael eu dirprwyo i lefel wardiau neu lefel reoli lleol arall fel sy'n briodol. Mae'r Cynulliad yn dyrannu cyllid cyfalaf yn uniongyrchol i ymddiriedolaethau GIG.

*Tynnwyd cwestiynau 10 (OAQ16566) ac 11 (OAQ16565) yn ôl.*

#### Goblygiadau Diddymu'r Awdurdodau Iechyd

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** Pa effaith fydd diddymu'r awdurdodau iechyd yn ei chael ar gynllunio adnoddau dynol yn y GIG yng Nghymru? (OAQ16516)

**Jane Hutt:** Yn sgîl diddymu'r awdurdod iechyd, bydd rôl y Cynulliad a'r grwpiau iechyd lleol yn newid er mwyn i'r broses newydd o gynllunio'r gweithlu gael ei chyflawni. Mae staff y grwpiau iechyd lleol yn cael eu hyfforddi ar hyn o bryd er mwyn gwella eu sgiliau cynllunio gweithlu hyd at y safon angenrheidiol.

#### Cofrestru gyda Deintydd

**C13 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn sy'n cael ei wneud i annog mwy o bobl Cymru i gofrestru gyda deintydd? (OAQ16562)

**Jane Hutt:** Mae sicrhau gwelliannau yn iechyd geneuol pobl Cymru yn egwyddor waelodol yn ein strategaeth gofal sylfaenol. Yr wyf yn cydnabod bod ymweld yn rheolaidd â deintyddfa yn elfen bwysig er mwyn cynnal iechyd y genau, a bydd ein polisïau yn parhau i annog hyn. Er enghraifft, yr wyf newydd gytuno ar becyn o fesurau, sy'n cynnwys parhau â menter ddeintyddol Cymru. Mae'r fenter hon yn darparu cyllid i ddenu deintyddion GIG i'r rhannau hynny o Gymru lle mae eu hangen fwyaf.

#### Model Hyfforddiant Meddygol ar gyfer Cymru Gyfan

**C14 Janet Ryder:** Pa ddatblygiadau a fu o ran y gwaith i ddatblygu model hyfforddiant meddygol ar gyfer Cymru gyfan? (OAQ16515)

**Jane Hutt:** Mae ein rhaglen i ehangu'r ddarpariaeth addysg feddygol sy'n arwain at radd wedi ei seilio ar fodel prif gorff ac is-sefydliadau gyda Choleg Meddygaeth Prifysgol Caerdydd. Mae'r ysgol glinigol loeren yn Abertawe wedi ei sefydlu. Mae cynllun i dderbyn myfyrwyr sydd wedi graddio yn Abertawe, ac ysgolion clinigol yng ngogledd Cymru ac Ysbyty Brenhinol Gwent, yn cael eu hystyried.

### **Darpariaeth Gwasanaethau Ffrwythloni *In Vitro***

**C15 Dafydd Wigley:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei pholisi i sicrhau bod gwasanaethau IVF yn cael eu darparu ym mhob rhan o Gymru? (OAQ16507) [W]

**Jane Hutt:** Mae'r Adran Iechyd a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyfeirio canllawiau Coleg Brenhinol Obstetreg a Gynecolegwyr ar ddarparu gwasanaeth anffrwythlondeb i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE). Mae NICE yn rhagweld y bydd y gwaith ar ganllawiau clinigol wedi'i gwblhau erbyn Hydref 2003.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**

#### **Ymweliad â Chiwba**

**C6 David Davies:** Sut y bydd taith ddiweddar y Gweinidog i Giwba o fudd i ysgolion Cymru? (OAQ16545)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Yr wyf yn awyddus i ddysgu o arferion gorau pa le bynnag y bônt. Mae gan Chiwba hanes llwyddiannus ym maes rhifedd a llythrennedd, a chefais gyfle i edrych ar hyn gyda'r Gweinidog Addysg, Dr Luis Gomez, yn ystod fy ymweliad. Bûm hefyd yn edrych ar faterion pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, sy'n flaenoriaeth i'r Cynulliad.

Yr oedd Pennaeth yr Adran Addysg ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe hefyd yn rhan o'r ddirprwyaeth a ddaeth gyda mi, ac mae ef wedi sefydlu cysylltiadau ag adrannau addysg yn Havana.

#### **Awdurdod Addysg Lleol Ynys Môn**

**C7 Peter Rogers:** A wnaiff y Gweinidog orchymyn cynnal ymchwiliad i'r honiadau bod Awdurdod Addysg Lleol Ynys Môn wedi methu â chydymffurfio â'r cod ymarfer ar gwynion yn erbyn athrawon, a hynny'n fwriadol? (OAQ16484)

**Jane Davidson:** Nid wyf wedi derbyn cwyn oddi wrth y rhai sydd a wnelont yn uniongyrchol â'r mater hwn. Pe câi cwyn ei gwneud, byddid yn ymchwilio iddi yn y ffordd arferol.

#### **Prinder Peirianwyr yng Nghymru**

**C8 Brian Hancock:** Sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu er mwyn goresgyn y prinder peirianwyr yng Nghymru? (OAQ16584)

**Jane Davidson:** Bydd Dysgu ac Addysgu Cymru yn gweithio gyda chyflogwyr, cyrff hyfforddi cenedlaethol a'r cynghorau sgiliau sector newydd i ymdrin â phrinder sgiliau cydnabyddedig. Yr ydym wedi cryfhau'r trefniadau hyn yn ddiweddar drwy sefydlu grwp cyflogwyr fel rhan o bartneriaeth Sgiliau Dyfodol Cymru. Bydd y grwp hwn yn gallu darparu cyngor strategol o safbwynt cyflogwyr o ran beth mwy y mae angen i ni ei wneud i ddelio â bylchau o ran sgiliau a phrinder sgiliau.

#### **Maint Dosbarthiadau yn Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru**

**C9 Delyth Evans:** Pa gamau ymlaen y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd o ran lleihau maint dosbarthiadau yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru? (OAQ16523)

**Jane Davidson:** Yr ydym yn cymryd camau sylweddol ymlaen.

Y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yw nad oes ond dau ddsbarth babanod yn ardaloedd y chwe awdurdod lleol dan sylw â mwy na 30 disgybl. Yn y naill achos a'r llall, un disgybl, sef lwfans a ganiateir, yw'r eithriad. Fel arfer mae eithriadau o'r fath yn deillio o dderbyn disgybl y tu allan i'r cych derbyn arferol.

Darparodd y Cynulliad gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol yn 2001-02 ac mae'n parhau i ddarparu cyllid o'r fath yn 2002-03 er mwyn dod â maint dosbarthiadau iau i lawr i 30, erbyn Medi 2003. Ym Medi 2001, yr oedd 14 y cant o ddisgyblion iau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru mewn dosbarthiadau o dros 30 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 22 y cant.

### **Cynnydd y Fargen Newydd yng Nghymru**

**C10 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd y Fargen Newydd yng Nghymru? (OAQ16590) [W]

**Jane Davidson:** Y Gwasanaeth Cyflogi sy'n gyfrifol am y Fargen Newydd yng Nghymru, ac nid Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fodd bynnag, mae'n chwarae rôl bwysig wrth helpu pobl ddi-waith a phobl heb weithgarwch economaidd i gael swyddi, ac mae'n bleser gennyf gael cyfle i bwysleisio'i llwyddiant. Hyd yma, mae tua 41,000 o bobl wedi derbyn cymorth i gael gwaith yng Nghymru ers i'r Fargen Newydd gael ei chyflwyno yn 1998.

### **Mesur Diwygio Addysg**

**C11 Jonathan Morgan:** A welwyd unrhyw ddatblygiadau o ran sefydlu ysgolion arbenigol yn sgîl y Mesur Diwygio Addysg arfaethedig? (OAQ16471)

**Jane Davidson:** Nid yw'r Mesur Addysg sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd yn delio â mater ysgolion arbenigol.

Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw gynlluniau i sefydlu ysgolion arbenigol yng Nghymru ac mae'n dal wedi ymrwmo i addysg gyfun heb drefniadau dethol ac i geisio sicrhau rhagoriaeth yn ein holl ysgolion. Nid yw hyn yn rhwystro ysgol rhag adeiladu ar ei chryfderau neilltuol yng nghyd-destun cyflwyno'r cwricwlwm cenedlaethol.

*Tynnwyd cwestiwn 12 (OAQ16478) yn ôl.*

### **Cyfrifon Dysgu Unigol**

**C13 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â chyfrifon dysgu unigol yng Nghymru? (OAQ16487)

**Jane Davidson:** Sefydlwyd tîm datblygu'r rhaglen cyfrifon dysgu unigol, sy'n cynnwys swyddogion o'r Cynulliad ac ELWa, i fwrw ymlaen i weithredu rhaglen olyn. Yr ydym yn ymgynghori â buddianwyr. Mae dau ymarferiad gwerthuso allanol ar y gweill, ac mae ELWa yn cynnal archwiliad mewnol o'i systemau cyfrifon dysgu unigol. Mae adroddiad ar yr holl ymarferiadau hyn i fod i ddod i law cyn diwedd Ebrill.

Yr wyf wedi gofyn i ELWa gyflwyno rhaglen olyn erbyn mis Medi. Yn amlwg, y peth pwysig yw cael y cynllun a pheirianwaith rheoli'r rhaglen yn iawn, er mwyn sicrhau bod pobl Cymru yn cael y cymorth gorau posibl a'r gwerth gorau am eu harian.

*Tynnwyd cwestiwn 14 (OAQ16592) yn ôl.*

### **Cyrsiau Rhifedd a Llythrennedd**

**C15 David Davies:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod cyrsiau rhifedd a llythrennedd ar gael i fwy o bobl? (OAQ16544)

**Jane Davidson:** Mae strategaeth sgiliau sylfaenol genedlaethol Cymru yn cynnwys ystod eang o fesurau gyda'r nod o sicrhau bod cyrsiau rhifedd a llythrennedd ar gael i fwy o bobl. Maent yn cynnwys:

- Ehangu'r cyrsiau llythrennedd teuluol a rhifedd teuluol a fu'n llwyddiannus iawn yn gwella sgiliau sylfaenol plant a rhieni
- cynlluniau y tu-allan-i'r-ysgol i ddenu disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau sgiliau sylfaenol y tu hwnt i'r amserlen a'r cwricwlwm ffurfiol
- rhaglenni hunan-gymorth ar gyfer oedolion y mae eu sgiliau fymryn yn is na lefel cymhwysedd gweithredol sy'n gallu manteisio ar ddeunyddiau dysgu o ansawdd dda a chael cymorth a chynghor ychwanegol pan fo angen hynny arnynt. Cyrchir at y rhaglenni hyn ar-lein drwy gyfrifiaduron cartref neu ganolfannau dysgu lleol
- prosiectau mewn sefydliadau gwirfoddol neu gymunedol ac yn y gweithle, yn cynnig anogaeth, cynghor a chymorth i'r rheini sydd â sgiliau sylfaenol gwael er mwyn sicrhau bod rhaglenni ar gael yn fwy eang ac i'w gwneud yn fwy effeithiol.

Mae'r cynlluniau hyn yn ychwanegol at y cyrsiau llythrennedd a rhifedd i oedolion sydd ar gael yn eang a'r cyrsiau ESOL (Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill) a gynigir gan sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol a darparwyr eraill.